


## Ganwyd Iesu'n nyddiau Herod

Ganwyd Iesu'n nyddiau Herod,
Ganwyd Iesu'n Frenin nef;
Gwelwyd seren yn y dwyrain
Oedd yn arwain ato Ef.

Cytgan:
Rhown ein moliant uwch ei breseb;
Mae'r gogoniant ar ei wyneb,
Wyneb Iesu, wyneb Iesu, Brenin nef.

Wele'r seren fry'n y dwyrain
Yno'n sefyll yn y nen
Uwch y lle gorweddai'r bychan
Bu llawenydd mawr dros ben.

Rhoes y doethion eu hanrhegion
Wrth ei breseb ar y gwair,
Aur a thus a myrr a sidan
Llawer trysor i Fab Mair.

Dwêd angylion gyda dynion
Ef yw'r trysor mwya'i fri,
A thra rhodiom lwybrau daear
Iesu Grist fo'n brenin ni.

## Seren Nadolig

Fry yn yr awyr fel disglair em
Gwenai y seren ar Fethlehem
O bry'n y preseb, Iesu Fab Mair
T'wysog Tangnefedd ar wely gwair

Tra gwena'r seren, fel disglair em
Fe aned baban
Ym Methlehem
Ym Methlehem

Doethion o'r dwyrain a'u rhoddion drud
Côr o angylion yn canu 'nghyd
Gwylaidd fugeiliaid o ben y bryn
Yn yr ystabl yn syllu'n syn

## Haleliwia

Mae'r nos yn hir, mae'r nos yn oer
A phawb yn cysgu dan y lloer
Nawr gwrandewch ar ein geiriau, fugeiliaid
Mae newydd mawr yn awr i chi
Mae seren ddisglair, dilynwch hi
Mae'r baban wedi'i eni draw ym Methle'm
Draw ym Methle'm, draw ym Methle'm
Draw ym Methle'm,
draw ym Meee-e-e-e-e-thle'm

## Byddwch Lawen

Clychau'n seinio ym Methl'em Jiwda,
Canu'n uchel drwy wlad a thref,
Clychau'n dathlu geni ceidwad,
Daeth i'n byd fel Crist o'r nef.

Cytgan:
Byddwch lawen, cenwch Amen,
Gwêl y baban yn ei grud
Byddwch lawen, cenwch Amen,
Ganwyd Iesu'n geidwad byd.

Daeth bugeiliaid yn eu syndod,
At y preseb, at y crud,
Doethion hwythau draw o'r dwyrain,
A'u hanrhegion gwerthfawr drud.

Gyda'r seren unwn ninnau,
Seiniwn gân soniarus llon,
Lleisiau'n dathlu geni ceidwad,
Gŵyl Nadolig ydyw hon.

## Fe Fydd y Ffordd yn Faith

Cytgan:
O Seren Wen uwchben y byd,
O dwed, o ble ddaethost ti?
Gwyrth yw, mae'n wir, fod d'olau clir
Nawr yn ein harwain ni
Dros bant a bryn, drwy'r tywod poeth
Fe fydd y ffordd yn faith.
O seren fry,
O, arwain ni'n ddiogel i ben y daith.

Ni wyddom, er syllu bob dydd, gyfrinachau y gofod,
Mae'r sêr a'r planedau, y lleuad a'r haul yn rhyfeddod.
Ond gwelsom un seren yn symud, a honno'n un newydd
Ei golau mor llachar, mae'n rhaid i ni ddilyn ei thrywydd.

Edrychwch! Mae'r seren yn aros uwchben yn ei hunfan,
A'i golau yn llenwi y stabal lle ganwyd y baban.
Rhown iddo'r anrhegion a phlygwn i lawr a'i addoli.
Cyd-ddathlwn ddyfodiad y seren a Gŵyl y Goleuni.

**Carol yr Asyn**

Ar drot, ar drot i Fethle'm,
Clip clop dros fryn a rhos,
Gan gario Mair yn dyner,
A chyrraedd gyda'r nos.

Cytgan:
Clip clop, clip clop
Yr asyn bach, clip clop

Ond doedd dim lle'n y llety
I Joseff nac i Mair,
Es i â nhw i'r stabal,
I orffwys yn y gwair.

Ac yno'n dawel, dawel
Daeth Baban bach i'r byd,
A Mair a'i rhoes i orwedd
Ar wair y preseb clyd

A gwelais seren newydd
Yn gwenu uwch fy mhen,
A chlywais lais angylion
Yn canu yn y nen.

**Nadolig Llawn i chi gyd**

Brysiwch lawr y grisiau,
Sylwch ar bresantau,
Beic mawr coch ac aur,
Doli ddel i Mair,
Teulu a pherthnasau
A ffrindiau i gyd yn cwrdd,
Mae'r twrci 'leni'n werth ei weld,
Eisteddwch wrth y bwrdd.

Nadolig llawen i chi gyd,
I deulu mawr y byd,
Ynghanol sŵn y dathlu
A oes 'na le i'r Iesu
Neu ydi'r llety'n llawn o hyd?

**Gŵyl y baban**

Dewch at eich gilydd
A bloeddiwch ynghyd
Fel un "Haleliwia!"

Gwyrth a rhyfeddod
Y seren fawr glir
Yn arwain yr heol i ni.
At breseb y baban
Y plentyn bach tirion
A ddaeth yn Waredwr
I ti ac i mi.
Yno'n gorwedd
Mewn cadachau tlawd
Yno'n cysgu yn drwm
Babi bychan
Yn frenin, yn frawd
Yn gyfoeth mewn stabal llwm

Cytgan:
Daeth Gŵyl y Baban
Â gwên 'nôl i'r byd
Deuwch, cenwch, clodforwch
Dewch at eich gilydd
A bloeddiwch ynghyd
Fel un "Haleliwia!"

Tri o'r Dwyrain
Yn plygu eu glin
A'u hoffrwm i'r babi yn ddrud
Ond O! Dyma offrwm i ni
Gan y babi
Yr offrwm o heddwch i'r byd

Noson o ddüwch
Ym Methlehem dref
Dwy fil o flynyddoedd yn ôl
A ninnau heddiw
Yn dathlu ynghyd
Y cariad adawodd y babi ar ôl

**Tinsel ar y goeden**

Tinsel ar y goeden
Seren yn y nen
A doli fach yn eistedd
Mor ddel a'r frig y pren

Ai hyn yw Nadolig
Pwy a ŵyr?

Clychau Santa'n tincian
Dros yr eira man
A lleisiau plant yn uno
i ganu carol lân

Ai hyn yw Nadolig
Pwy a ŵyr?

Plant yn dawel, dawel
Yn eu cwsg drwy'r oriau bach
A breuddwyd fwyn yn gofyn
A ddaw Santa gyda'i sach?

Daw teganau lawer
A phwy a ŵyr o ble
A sŵn eu chwerthin hapus
A glywir dros y lle

Ai hyn yw'r Nadolig
Pwy a ŵyr?

Clychau eglwys fechan
A'i neges i'r holl fyd
Yn canu i'n atgoffa
fod baban yn ei grud

Neswch at y preseb,
plygwch yno'n llwyr.
Wrth weld y brenhinoedd a'r engyl
Nid oes rhaid gofyn, pawb a ŵyr.

